Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

LGPS 06-05(p5)

Dyddiad: 8 Mehefin 2005
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora
Teitl: Prosiect Craffu ar Drefniadau Etholiadol: Materion yn codi o'r sesiynau tystiolaeth cychwynnol

Diben

1. Mae'r papur hwn y nodir rhai o'r materion allweddol sy'n codi yn sgil Prosiect Craffu ar Drefniadau Etholiadol y Pwyllgor ac yn awgrymu meysydd i ymchwilio iddynt ymhellach.

Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2005, cytunodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer Prosiect Craffu ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru:

- Ystyried y materion yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, gan roi sylw penodol i gofrestru pleidleiswyr, y nifer sy'n pleidleisio, cyfranogiad pobl ifanc a phleidleisio dwyieithog.
- Ystyried amrywiaeth o fesurau a ddefnyddir mewn systemau gwleidyddol eraill i wella'r broses gofrestru, i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio, a nifer y bobl ifanc sy'n cyfranogi ac ystyried i ba raddau y gellid eu cymhwyso i etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru.
- Ystyried a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau bod trefniadau pleidleisio yng Nghymru yn gwbl gynhwysfawr.
- Cyflwyno argymhellion.

Ystyriaeth

Cofrestru Pleidleiswyr

3. Mae'n orfodol cofrestru pleidleiswyr yn y DU. Os na fydd pobl yn llenwi'u ffurflenni pleidleisio fel sy'n ofynnol, mae'n bosibl iddynt gael eu dirwyo ond ychydig iawn, mewn gwirionedd, sy'n cael eu herlyn.[1]

4. Mae gan y DU system gofrestru dreigl. Mae hyn yn golygu y caiff y rhestr etholiadol ei diweddaru'n rheolaidd i gynnwys y rheini sy'n cyrraedd oedran pleidleisio, sydd wedi sicrhau dinasyddiaeth, sydd newydd ddod yn gymwys i bleidleisio (e.e. wedi'u rhyddhau o'r carchar) neu sydd wedi symud o un etholaeth i'r llall. Hefyd, mae angen diweddaru'r rhestr er mwyn tynnu enwau oddi arni e.e. y rheini a oedd â hawl i bleidleisio ond sydd wedi marw neu'r rheini nad ydynt bellach yn bodloni gofynion dinasyddiaeth neu'r gofynion sy'n rhoi'r hawl iddynt bleidleisio.

5. Gyda'r Gofrestr Etholwyr Ar-lein Gydgysylltiedig (CORE) mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyfuno neu gysylltu rhestrau etholiadol holl awdurdodau lleol y DU.

6. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Bryn Parry Jones, y Prif Swyddog Etholiadol:

> The system of voter registration is the keystone for running a good election. I know that I and my colleagues spend a lot of time seeking to ensure that we have as good an electoral register as possible. The canvass undertaken every year is extensive. The forms of information used by local authorities are available for this purpose, such as when new houses are completed, and we take account of the registers of deaths and so forth. We seek to use other sources of information to keep that register in good order. However, there are limitations in our capacity, due to data protection, to be able to achieve the sort of information sharing that might be useful, in terms of ensuring that the register is as close to complete as possible, and also to avoid the possibilities of fraud.

7. Ar hyn o bryd mae gan y DU system sy'n seiliedig ar gofrestru aelwydydd. Mae llawer yn dadlau y byddai mwy o fanteisio ynghlwm wrth gofrestru unigol gan y byddai'r gofrestr yn fwy manwl gywir ac y byddai tystiolaeth, fel llofnodion, ar gael ar gyfer archwiliadau diogelwch yn y dyfodol yng nghyswllt ceisiadau am bleidlais absennol ac yn y blaen. Gellid osgoi achosion o hepgor unigolion naill ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol o'r gofrestr.

8. Byddai system o'r fath, fodd bynnag, yn debygol o arwain at gynnydd mewn costau, yn enwedig os na fyddai'r gosb am beidio â chydymffurfio yn cael ei hystyried yn ddull gwirioneddol ac effeithiol o annog unigolion i gymryd rhan. Gallai hefyd arwain at gofrestr lai cywir pe bai canran y pleidleisiau'n isel. Hefyd, mae system cofrestru aelwydydd yn caniatáu i unigolion â phroblemau llythrennedd neu anfanteision eraill gael eu cofrestru.

9. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, amlinellodd Roger Morris sut y mae canfyddiadau'r cyhoedd yn tanlinellu'r angen i newid dulliau cofrestru:

> The old system [of household registration] was tried and tested; it worked well for a long time and was well understood, but it was paper based and had limitations in terms of the trustworthiness of the head of the household responding appropriately and so forth.

10. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi annog Llywodraeth y DU i gyflwyno system ar gyfer cofrestru

unigol. Y mae o'r farn bod y system hon yn allweddol i'r broses o greu etholiadau diogel o bell.

11. Cyn mabwysiadu system cofrestru unigol byddai angen penderfynu ar y sylfaen ar gyfer cofrestru unigol. Er enghraifft, a ddylid defnyddio cyfeiriad unigolion, neu feini prawf personol fel Rhif Yswiriant Gwladol neu ddyddiad geni? Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Dethol Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog dywedodd SOLACE:

> National Insurance numbers would appear to be a most attractive solution. It is understood that most people have an NI number, though it is not blanket coverage. Our society is very mobile and this is always a problem with an address-based system.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am ystyried ymhellach y manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm wrth systemau cofrestru aelwydydd a chofrestru unigol ac, os penderfynir mabwysiadu system cofrestru unigol, ar ba sail y dylid gwneud hynny.

Cynyddu'r Nifer sy'n Pleidleisio

Effaith pleidleisio drwy'r post

12. Mae'r dystiolaeth a gafwyd hyn yn hyn ynghylch nifer y pleidleiswyr wedi canolbwyntio ar y cynnydd yn nifer y rheini sy'n pleidleisio drwy'r post ar ôl cael gwared ar y rhwystrau a'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd yn Lloegr yn 2004 lle roedd pawb yn pleidleisio drwy'r post. Daeth nifer o faterion allweddol i'r amlwg sef, yn bennaf, sut i gydbwyso'r cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd â phroblemau diogelwch. Pwysleisiodd Roger Morris, a fu'n goruchwylio cynllun peilot ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn ystod Etholiadau Ewrop 2004 yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, ei bod yn hanfodol cadw'r 'elfen o hyder a dealltwriaeth' wrth annog pobl i bleidleisio ac ni fu cymhlethdod y pecynnau pleidleisio a'r cyfarwyddiadau a ddosbarthwyd yn 2004 yn fawr o gymorth:

> When you are confronted with a slab of instructions, you think to yourself, ‘Oh my goodness, there is a lot to this, I do not have time, and I will do it later’. In fact, all it really needed to say was, ‘Put a cross like you always do, put it in the envelope and shove it in the box’.

13. Yn 2004, argymhelliad y Comisiwn Etholiadol i Lywodraeth y DU oedd na ddylid cyflwyno pleidlais drwy'r post i bawb ar gyfer etholiadau statudol y DU. Mae tystiolaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys tystiolaeth i'r Pwyllgor gan Bryn Parry Jones, yn awgrymu y daw pleidleisio drwy'r post yn fwy poblogaidd ymhlith y cyhoedd, ond y byddant hefyd yn awyddus i fedru parhau i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio, ac i fedru newid eu dulliau o bleidleisio os dyna'u dymuniad.

14. Mae diogelwch pleidleisio drwy'r post yn bryder sylweddol yn dilyn rhai achosion a gafodd gryn sylw ar ôl Etholiadau Lleol Lloegr yn 2004. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi darganfod bod y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â'r posibilrwydd y gellid rhoi pwysau gormodol ar bobl neu eu gorfodi i

bleidleisio mewn ffordd arbennig. Roedd y rhan fwyaf o'r honiadau a dderbyniwyd gan y Swyddogion Etholiadol a'r heddlu'n gysylltiedig â phleidleiswyr yn cael eu gorfodi i bleidleisio mewn ffordd arbennig, neu i roi eu papur pleidleisio i rywun arall ei llenwi. Mae rhywfaint o bryder hefyd dros ddibynadwyedd y gofrestr etholiadol.[2]

15. Mae'r Comisiwn wrthi'n datblygu 'model sylfaenol ar gyfer pleidleisio' yng nghyswllt etholiadau statudol a fydd 'yn gallu rhoi dewis a diogelwch i bleidleiswyr'. Dyma y mae'n ei argymell:

- diweddaru'r drosedd mewn perthynas â dylanwadu'n ormodol ar y rheini sy'n pleidleisio drwy'r post;
- trosedd newydd mewn perthynas â llenwi cais dwyllodrus am bleidlais drwy'r post.
- adolygu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn ôl y galw i sicrhau ei fod yn 'ateb y diben' o gofio'r cynnydd yn y nifer sy'n defnyddi'r bleidlais drwy'r post.

16. Y mae hefyd yn argymell y dylid disodli'r Datganiad ynghylch Pwy Ydych chi â datganiad diogelwch newydd yng nghyswllt pleidleisiau drwy'r post. Dylai hyn olygu bod y pleidleisiwr yn llofnodi datganiad yn dweud mai nhw yw'r unigolyn y cyfeiriwyd y papur pleidleisio ato a dylid hepgor yr angen i gynnwys unrhyw fath o lofnod tyst. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Bryn Parry Jones:

> There are issues with regard to postal voting…. concerning whether it is possible to introduce a postal-voting system whereby signatures can be checked. That is either signatures on the electoral registration form, the application for postal voting or the declaration form.
>
> On a practical basis, that will be possible only if there is investment in signature recognition machines. From a practical point of view, given the volume of paper that is being handled, there is no way in which any sort of manual check between one form and another would be possible at the time when staff are dealing with an election. We have many hundreds of people per constituency dealing with elections as it is. The process, the timescales that are set, and the expertise that would be necessary to make a judgement on matching one signature to another do not make that a practical proposition without investment.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am ystyried ymhellach faterion yn ymwneud â phleidleisio drwy'r post fel:

- Rhan y pleidiau gwleidyddol yn y gwaith o gasglu a chyflwyno pleidleisio drwy'r post;
- Datblygu arfer da ar gyfer awdurdodau lleol fel penodi 'swyddog llywyddu' i fynd o amgylch cartrefi preswyl a chynorthwyo pobl i bleidleisio drwy'r post.

Mae'n bosibl y bydd hefyd am ystyried rhai o gasgliadau'r Comisiwn Etholiadol ynghylch pleidleisio

drwy'r post yn Etholiad Cyffredinol 2005.

Annog pobl ifanc i gofrestru ac i bleidleisio

17. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys edrych ar ffyrdd o gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n pleidleisio. Mater allweddol yw sicrhau bod pobl ifanc yn cofrestru yn y lle cyntaf.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am ystyried cynlluniau i annog pobl ifanc i gofrestru ac i bleidleisio er enghraifft:

- ei gwneud hi'n haws cofrestru i bleidleisio, er enghraifft, drwy sefydlu mentrau cofrestru ar safleoedd prifysgol, addysg bellach a cholegau chweched dosbarth;
- targedu pobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r system addysg drwy sefydlu mentrau cofrestru mewn cyfleusterau fel canolfannau cymuned;
- hybu mentrau addysgol ar ddemocratiaeth (mae rhai Awdurdodau Lleol Cymru yn awr yn rhedeg gweithdai ar gyfer pobl ifanc yn egluro'r ffordd y mae cynghorau lleol yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau)[3];
- hybu etholiadau rhagbaratoawl fel ffug etholiadau a throi'r tro cyntaf y bydd rhywun yn pleidleisio ynrhyw fath o 'ddefod' sy'n nodi carreg milltir yn eu bywydau;
- Cynnal diwrnod arbennig i Gofrestru Pleidleiswyr Ifanc.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am ystyried ymhellach i ba raddau y gall e-bleidleisio helpu i annog mwy o bobl ifanc i bleidleisio.

Hygyrchedd

18. Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio a hybu tegwch mewn etholiadau, mae'n bwysig ei gwneud yn haws i'r henoed a phobl anabl bleidleisio. Drwy alluogi pobl i bleidleisio drwy'r post a gwella hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio bydd yn haws i bobl anabl bleidleisio. Ym mis Ionawr 2003, cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol ganllawiau arferion gorau ar gyfer gweinyddwyr etholiadau[4]. Er hyn, yn ei adroddiad ar Etholiadau'r Cynulliad 2003 gwelodd y Comisiwn fod llawer o bobl anabl yn teimlo nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu. Honai'r Comisiwn hefyd iddynt weld 'gwelliant cadarnhaol a graddol yn nifer y gorsafoedd pleidleisio hygyrch yng Nghymru' erbyn Etholiadau Lleol 2004. Fodd bynnag, yn ôl arolwg 'Etholiadau'n Eithrio', a edrychodd ar oddeutu 150 o orsafoedd pleidleisio, nid oedd 77% ohonynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer hygyrchedd[5].

19. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor dywedodd Bryn Parry Jones:

> On accessibility for disabled people, there are practical issues, which will remain the case despite the Disability Discrimination Act 1995. I suspect that a number of buildings that must be used for polling stations, particularly in rural areas where there is little choice, do not have ideal facilities for welcoming disabled people. The Assembly’s initiative for the

> last election, in terms of providing temporary ramps, was welcomed and was taken advantage of. As to the permanent capacity for buildings to be accessed by everyone, when you are dealing with buildings such as chapel vestries, there is little capacity for investment. There are programmes that both the Assembly and local authorities run, but they usually require match funding for that purpose. Therefore, we do not have a universally ideal situation, though people can now access buildings by using temporary ramps.

Bydd tystiolaeth SCOPE yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y mater hwn.

Iaith

20. Mae gallu ieithyddol yn ffactor pwysig o ran caniatáu i unigolion fod yn rhan o'r broses etholiadol, boed hynny o safbwynt cofrestru, fel y trafodwyd uchod, neu o safbwynt pleidleisio, o ran deall y papur pleidleisio neu o ran cael cyngor. Ar hyn o bryd, mae'r ffurflenni statudol allweddol megis papurau pleidleisio a chofrestru ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg yng Nghymru.

21. Yng nghyswllt pleidleisio dwyieithog nododd Bryn Parry Jones 'bod hynny'n ofynnol o ran disgwyliadau pobl Cymru…ond er hynny, nid oedd, o reidrwydd, yn cael ei ddeall yn llawn o ran y ffordd y mae etholiadau'n cael eu cynnal yn y DU'.

22. Mae'r arferion presennol mewn perthynas â gwasanaethau etholiadol mewn ieithoedd gwahanol i Saesneg a Chymraeg wedi'u hamlinellu yng Nghanllawiau'r Comisiwn Etholiadol.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am archwilio ymhellach y materion yn ymwneud â phleidleisio dwyieithog a darparu papurau etholiadol mewn ieithoedd gwahanol i Saesneg a Chymraeg drwy gymryd tystiolaeth gan dystion priodol.

Gallu a chostau

23. Mae'r cynnydd mewn pleidleisio drwy'r post wedi codi cwestiynau ynglyn â gallu'r Swyddogion Etholiadol a'r staff etholiadol i ymdopi â'r broses etholiadol, fel y nododd y Comisiwn Etholiadol yn ei adroddiad ar Etholiadau Llywodraeth Leol 2004 (er mai ffactor arall oedd cyfuno etholiadau a gynhaliwyd ar yr un diwrnod)[6]. Yn ogystal â hyn, fel y gwelwyd uchod, mae goblygiadau o ran costau ynghlwm wrth y penderfyniad i gyflwyno system gofrestru newydd; cyflwyno mesurau diogelwch i sicrhau y gellid parhau i ymddiried yn y system a chyflwyno mesurau arloesol fel e-bleidleisio ac mae'n codi cwestiynau hefyd ynglyn â gallu'r staff a 'pherchnogaeth' y broses etholiadol. Mae rhai Gweinyddwyr Etholiadol yn teimlo bod cynlluniau e-bleidleisio a gafodd eu treialu hyd yn hyn yn peri pryder i Swyddogion Etholiadol oherwydd eu bod yn teimlo bod y broses etholiadol yn cael ei rhoi yn nwylo arbenigwyr Technoleg Gwybodaeth.[7]

24. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Roger Morris :

> I took part in an Electoral Commission exercise two or three years ago about the cost of elections, but those figures have long since gone out of the window because that everyone will be manning all the usual polling stations over the next few weeks, but at the same time they will be doing a tremendous postal exercise. Therefore, the cost benefit is also changing. We have not touched on that this morning, but, from the point of view of election management, that is an important issue.

Y Cyd-destun Deddfwriaethol

25. Wrth ystyried y dystiolaeth a gafwyd hyd yn hyn, a gwaith y Prosiect Craffu yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur Gweinyddu Etholiadau a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines ar 17 Mai 2005. Mae'r Mesur yn:

- Diffinio troseddau newydd mewn perthynas â thwyll etholiadol (gan gynnwys cais twyllodrus am bleidlais drwy'r post) ac ehangu'r drosedd am gambersonadu.
- Symleiddio ac yn gwella diogelwch pleidleisio drwy'r post drwy gyflwyno cofrestrau ar gyfer y pleidleisiau a dderbyniwyd drwy'r post a rhybuddion statudol ynglyn â chyfrinachedd i rwystro pobl rhag dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn bwriadu pleidleisio.
- Galluogi pobl i gofrestru i bleidleisio yn nes at ddyddiad yr etholiad.
- Cyflwyno dulliau cofrestru dienw ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.
- Galluogi swyddogion Etholiadol i roi canllawiau i bleidleiswyr mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau.
- Cyflwyno fframwaith ar gyfer y Gofrestr o Etholwyr Ar-lein Gydgysylltiedig (CORE) i alluogi unrhyw un ym Mhrydain i'w defnyddio ac i sicrhau y caiff y cofrestrau eu cynnal a'u cadw'n ddiogel ac yn fanwl gywir.
- Caniatáu i arsyllwyr fynd i'r gorsafoedd pleidleisio ac i arsyllu camau eraill yn y broses etholiadol, fel y cyfrif.
- Cyflwyno rheolau cliriach ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol ac yn amlinellu cyfnod rheoleiddio ar gyfer mesur a rheoli costau ymgeiswyr, yn unol â rheolau gwario presennol y pleidiau.
- Lleihau biwrocratiaeth ar gyfer pleidiau bychain ac ymgeiswyr annibynnol, gan hybu cyfranogiad amlbleidiol mewn etholiadau.
- Gostwng oedran ymgeiswyr i 18.
- Caniatáu i bleidleiswyr ddod â'u plant gyda nhw i'r orsaf bleidleisio.
- Sefydlu trefniadau mwy hyblyg ac atebol ac yn cyflwyno safonau perfformio ar gyfer etholiadau er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol yn y ffordd y caiff gwasanaethau etholiadol eu darparu.
- Rhoi pwerau newydd i'r Comisiwn Etholiadol, gan ei alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau statudol i fonitro a rhoi cyngor ar y gyfraith a'r prosesau etholiadol.

26. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor hefyd am ystyried yr argymhellion a gyhoeddwyd ar 20 Mai 2005 gan y Comisiwn Etholiadol yn ei adroddiad, Securing the Vote:

- Dylai bod angen i bob pleidleisiwr ddarparu manylion ynglyn â phwy ydynt, er enghraifft llofnod a dyddiad geni, yn ogystal â'u henwau a'u cyfeiriad pan fyddant yn cofrestru i bleidleisio.
- Ar ôl galw'r etholiad, dylid symud y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yn nes at ddyddiad yr etholiad.
- Dylid cadw cofrestrau etholiadol ar ffurf yn electronig a'u diweddaru'n barhaus.
- Dylai'r holl geisiadau am bleidleisiau drwy'r post neu drwy ddirprwy gynnwys manylion adnabod personol a gaiff eu casglu pan fyddant yn cofrestru, a dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol wirio'r ceisiadau yn erbyn y manylion adnabod ar y gofrestr newydd.
- Dylid rhoi mwy o amser i wirio gwybodaeth wrth brosesu ceisiadau .
- Dylai datganiadau diogelwch newydd ar gyfer pleidleisio drwy'r post gynnwys manylion adnabod personol a roddir wrth gofrestru, a dylai'r Swyddogion Etholiadol sicrhau bod y datganiadau diogelwch yn cyd-fynd â'r manylion adnabod ar y gofrestr newydd.
- Methu rhoi'r wybodaeth gywir i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol .
- Gwneud cais twyllodrus am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy.
- Pwer i arestio rhywun am gambersonadu y tu allan i orsaf bleidleisio.
- Gwneud y gyfraith yn ymwneud â dylanwadu'n ormodol yn gliriach.

Camau i'w cymryd

27. Y Pwyllgor i nodi meysydd pellach i'w harchwilio, a thystion, fel rhan o'r Prosiect Craffu.

[1] Ty'r Cyffredin, Nodyn Ymchwil SN/PC/00954, *Compulsory Voting*, 2003 http://www.parliament.uk/commons/lib/research/notes/snpc-00954.pdf

[2] Y Comisiwn Etholiadol, *Delivering Democracy*, 2004 (a) http://www.electoralcommission.gov.uk/files/dms/DeliveringDemocracyfinalcomplete_16306-10935__E__N__S__W__.pdf

[3] Er enghraifft, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

[4] Y Comisiwn Etholiadol, *Equal Access to Electoral Procedures*, 2003.

[5] Comisiwn Etholiadol Cymru, *Etholiadau Lleol yng Nghymru*, 2004 (b).

[6] Op.cit., y Comisiwn Etholiadol, 2004 (b).

[7]Sylwadau ar egovmonitor gan Malcolm Dumper, Cyfarwyddwr Gweithredol (Polisi a Materion Allanol), Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) http://www.egovmonitor.com/features/evoting2003.html